



Department
for Environment,
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



DAERA
Department of Agriculture,
Environment and Rural Affairs
An Roinn Talmhaíochta,
Comhshaoil agus Gnóthaí
Tuaithe
Department o' Fairmin,
Environment an' Kintra
Matters
www.daera-ni.gov.uk

Ymgynghoriad ar stynio moch â charbon deuocsid

Cynnig i roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio nwy carbon
deuocsid i stynio moch yn y DU

Hydref 2026

Rydym yn gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydym hefyd yn cefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sydd gyda'r gorau yn y byd.

Adran weinidogol yw Defra, a gefnogir gan 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.



© Hawlfraint y Goron 2026

Trwyddedir yr wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yma www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn aw.slaughter@defra.gov.uk.

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Trosolwg	5
Cwmpas	5
Cynulleidfa.....	5
Ymateb i'r ymgynghoriad	6
Y cefndir a'r cynnig	8
Cyd-destun	8
Deddfwriaeth	8
Tystiolaeth o bryderon lles ynghylch defnyddio carbon deuocsid crynodiad uchel	9
Defnydd presennol	10
Tystiolaeth yn ymwneud â dulliau amgen.....	11
Canlyniadau Pigstun.....	12
Cyngor y Pwyllgor Lles Anifeiliaid.....	13
Cynnig	15
Opsionau	15
Asesiad effaith yr ymgynghoriad.....	16
Dichonoldeb ac effeithiau economaidd dulliau amgen.....	17
Adroddiad yr AHDB	17
Amcangyfrif o'r effaith ar brisiau i ddefnyddwyr a mewnfôrion.....	18
Rhan 2 – Cynnig	20
Amdanoch Chi neu Eich Sefydliad	20
Amdanoch chi (unigolyn).....	21
Gwybodaeth am eich sefydliad chi	21
Cwestiynau Cyffredinol.....	21
Cwestiynau dichonoldeb ac economaidd i'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant moch.....	22
Cwestiynau am gostau	23
Costau newid i stynio â nwy argon	24

Costau newid i stynio trydanol awtomataidd.....	27
Costau eraill	30
Cwestiynau i gwmnïau sy'n cyflenwi carbon deuocsid a nwy argon	32
Cwestiynau i gwmnïau sy'n cyflenwi carbon deuocsid	33
Cwestiynau i gwmnïau sy'n cyflenwi argon	33
Cwestiynau i gwmnïau sy'n cyflenwi carbon deuocsid ac argon	34
Cwestiynau i fanwerthwyr, gweithgynhyrchwyr bwyd neu'r rheini mewn gwasanaethau bwyd	36
Cwestiynau i eraill.....	36
Masnach.....	37
Cwestiynau i gloi.....	37

Trosolwg

Cwmpas

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynigion sy'n berthnasol i'r DU gyfan. Fe'i cyhoeddir gan Defra ar ran Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Rydym yn gofyn am farn ar ein cynigion i roi'r gorau'n raddol i stynio moch â nwy carbon deuocsid mewn lladd-dai ac ierdydd celanedd yn y DU. Mae'r dystiolaeth bod stynio â charbon deuocsid yn achosi poen, dioddefaint a gofid sylweddol i foch adeg eu lladd yn hysbys iawn. Mae tystiolaeth glir bellach y bydd dulliau stynio eraill a ganiateir, fel defnyddio nwyon anadweithiol, yn lleihau'r materion lles hyn yn sylweddol i foch. Credwn y byddai gwahardd stynio moch â charbon deuocsid mewn lladd-dai ac ierdydd celanedd yn arwain at welliant sylweddol yn lles moch adeg eu lladd, ac y dylid rheoli'r symudiad oddi wrth stynio â charbon deuocsid mewn ffordd sy'n galluogi'r diwydiant i wneud y newidiadau technolegol angenrheidiol i addasu systemau presennol a chynnal hyfywedd economaidd.

Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu parhau i ganiatáu'r gallu i ddefnyddio cymysgeddau nwy anadweithiol sy'n gysylltiedig â chrynodiadau isel o garbon deuocsid at ddibenion diboblogi oherwydd yr amgylchiadau penodol sy'n gysylltiedig â difa moch o dan amodau maes. Oherwydd deinameg trin nwy, gall fod yn fwy heriol yn dechnegol i offer a ddefnyddir mewn amodau maes sy'n defnyddio nwy anadweithiol pur ddisodli digon o ocsigen i gyrraedd lefelau o dan 2% (i arwain at anocsia) o'i gymharu â lladd-dy. Nid ydym yn ymgynghori ar y pwynt hwn.

Cynulleidfa

Gall unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r rhai a allai fod â diddordeb yn cynnwys:

- sefydliadau academiaidd
- sefydliadau lles anifeiliaid
- defnyddwyr / y cyhoedd
- cynlluniau gwarant fferm
- sefydliadau ffermio a chyrff masnach
- cwmnïau nwy diwydiannol
- cynhyrchwyr moch
- proseswyr moch a lladd-dai
- manwerthwyr
- gweithgynhyrchwyr offer stynio
- y proffesiwn milfeddygol

Ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad wyth wythnos hwn yn dechrau ar 26 Hydref 2026 ac yn cau ar 21 Rhagfyr 2026. Ni fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi.

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn drwy ddefnyddio hyb ymgynghori SmartSurvey (<https://consultations.defra.gov.uk/phasing-out-carbon-dioxide-stunning-of-pigs>). Os nad ydych chi'n gallu defnyddio SmartSurvey, gallwch lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori a dychwelyd eich ymateb drwy anfon neges e-bost i aw.slaughter@defra.gov.uk, neu'n ysgrifenedig i:

Carbon Dioxide Stunning of Pigs Consultation, Farm Animal Welfare Team, Department for Environment, Food and Rural Affairs, Seacole Building 2nd Floor, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF.

Sylwch, mae'n rhaid i unrhyw ymatebion a gaiff eu hanfon drwy'r post fod wedi cyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad (21 Rhagfyr 2026) i gael eu hystyried. Ni fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi. Er mwyn sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb yn electronig, yn ddelfrydol ar-lein drwy ddefnyddio SmartSurvey (neu drwy e-bost).

Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol ar gyfer eu hymateb. Pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion gan eu haelodau neu eu cefnogwyr, yn aml drwy awgrymu geiriad i ymatebwyr ei ddefnyddio, gelwir hyn yn ymgyrch. Mae ymatebion ymgyrchoedd fel arfer yn debyg iawn neu'n union yr un fath â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gellir dadansoddi ymatebion ymgyrchoedd ar wahân i ymatebion eraill i sicrhau bod modd crynhoi ehangder y safbwyntiau a geir yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr holl ymatebion sy'n rhan o ymgyrch yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o farn y cyhoedd, ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o gryfder y teimlad ar fater. Y llwybr sy'n cael ei ffafrio i'r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) yw drwy ddefnyddio hyb SmartSurvey.

Ar ôl yr ymgynghoriad

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ar ôl i ffenestr yr ymgynghoriad ddod i ben. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau neu sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a'r ymarfer galwad am dystiolaeth sydd ar gael yma <https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice>

Gwybodaeth Arall

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet, sydd ar gael yma: [Microsoft Word - Consultation Principles \(1\).docx \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

Y weithdrefn gwyno

Dylid cyflwyno pob cwyn am y broses ymgynghori i'r Cydlynnydd Ymgynghori drwy anfon neges e-bost i: consultation.coordinator@defra.gov.uk. Er mwyn bodloni safon gwasanaeth Defra, ymatebir i bob cwyn o fewn 15 diwrnod i'r gŵyn ddod i law.

Y cefndir a'r cynnig

Rydym yn gofyn am farn ar y cynnig i roi'r gorau i stynio moch â nwy carbon deuocsid mewn lladd-dai ac ierdydd celanedd yn y DU. Rydym hefyd yn gofyn am farn ar hyd priodol y cyfnod pontio cyn y gallai unrhyw waharddiad arfaethedig ddod i rym, yn ogystal â chasglu rhagor o wybodaeth am yr effeithiau ar ddiwydiant.

Os hoffech gael gwybodaeth am y canlynol, ticiwch y blwch:

- ☐ Cyd-destun
- ☐ Deddfwriaeth
- ☐ Tystiolaeth o bryderon lles ynghylch defnyddio carbon deuocsid crynodiad uchel
- ☐ Defnydd presennol o stynio â charbon deuocsid crynodiad uchel
- ☐ Tystiolaeth yn ymwneud â dulliau amgen
- ☐ Tystiolaeth o'r Prosiect PigSun
- ☐ Cyngor y Pwyllgor Lles Anifeiliaid
- ☐ Cynnig

Cyd-destun

Defnyddir stynio â charbon deuocsid crynodiad uchel i ladd 90% o gyfradd prosesu moch y DU, neu tua 10 miliwn o foch bob blwyddyn (Arolwg Sector Lladd 2024), gan godi o 50% o foch wedi'u stynio yn defnyddio'r dull hwn yn 2013. Mae'r dull yn cyflwyno heriau difrifol a hirsefydlog o ran lles anifeiliaid. Rydym yn gwybod bod y dull stynio hwn yn achosi poen, ofn a thrafferthion anadlu sylweddol, sydd fel arfer yn para tua 30 eiliad nes bydd yr anifail yn dechrau colli ymwybyddiaeth. Mae moch yn profi trafferthion anadlu a theimlad o ddiffyg anadl wrth i'r carbon deuocsid greu amodau asidig poenus wrth ddod i gysylltiad â phlenni corff llaith (y geg, ffroenau, arwynebau anadlol, llygaid).

Deddfwriaeth

Yn gyffredinol, mae deddfwriaeth ar les anifeiliaid adeg eu lladd yn mynnu bod anifeiliaid yn cael eu stynio cyn eu lladd er mwyn sicrhau nad ydynt yn dioddef poen na dioddefaint pan gânt eu lladd. Mae'r dulliau a ganiateir ar gyfer stynio anifeiliaid adeg eu lladd yn y DU wedi'u nodi yn Rheoliad y Cyngor (E) Rhif 1099/2009 (Rheoliad 1099/2009). Ar hyn o bryd, y dulliau a ganiateir ar gyfer stynio moch pwysau masnachol i'w lladd yw dyfais follddryll dreiddiol, arf tanio gyda bwled rydd, stynio trydanol pen yn unig, stynio trydanol o'r pen i'r corff, carbon deuocsid crynodiad uchel, carbon deuocsid sy'n gysylltiedig â nwyon anadweithiol a nwyon anadweithiol. Mae'r dulliau stynio hyn (ac eithrio arf tanio gyda bwled rydd, nad yw efallai'n ymarferol yn y lladd-dy am resymau iechyd a diogelwch) yn cael eu diffinio fel stynio syml, sy'n golygu bod angen eu dilyn gan ddull lladd fel gwaedu.

Mae rheolau cenedlaethol llymch yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon¹ hefyd yn cynnwys gofyniad bod moch yn dod i gysylltiad â nwy am ddigon o amser i sicrhau eu bod yn cael eu lladd. Deallir bod hyn yn golygu cyn belled ag y bo angen i sicrhau bod y moch yn aros yn anymwybodol.

Tystiolaeth o bryderon lles ynghylch defnyddio carbon deuocsid crynodiad uchel

Mae pryderon am briodoldeb stynio moch â charbon deuocsid yn hirsefydlog ac wedi'u cofnodi mewn adroddiadau gan gyrff gwyddonol uchel eu parch.

Yn 2003, daeth y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm i'r casgliad canlynol²: 'nad yw'r defnydd o grynodiadau uchel o CO₂ (80% ac uwch) i stynio a lladd moch yn dderbyniol'; ac argymhellwyd y dylai'r 'Llywodraeth a'r diwydiant ariannu ymchwil a datblygu i ddefnyddio cymysgeddau nwy nad ydynt yn achosi poen, ofn a thrafferthion anadlu. Dylid rhoi'r gorau yn raddol i ddefnyddio cymysgeddau nwy sy'n achosi niwed o'r fath.'

Mewn adroddiad yn 2004, bu Panel Gwyddonol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ar lechyd a Lles Anifeiliaid (EFSA)³ nodi'r canlynol: 'ar grynodiadau sy'n uwch na 30% CO₂, gwyddom fod y nwy yn achosi gofid, goranadlu a llid ar y pilenni mwcaidd a all fod yn boenus ac arwain at oranadlu a dyhefod am wynt cyn colli ymwybyddiaeth. Mae stynio hypocsig sy'n cael ei ysgogi gan 90% argon mewn aer yn achosi llai o ofid na hypocsia hypercapnig sy'n cael ei ysgogi gan 30% CO₂ mewn argon neu stynio gydag 80-90% CO₂ mewn aer.'; ac argymhellwyd 'na ddylai'r nwy sy'n cael ei ddefnyddio i wneud iddynt golli ymwybyddiaeth beri unrhyw ofid na phoen. Yn hyn o beth, mae'n ymddangos bod manteision i les anifeiliaid wrth ddefnyddio argon, nitrogen neu gymysgeddau o'r nwyon hyn, oherwydd nid yw hypocsia sy'n cael ei ysgogi gan y cymysgeddau nwy hyn yn peri gofid i foch.'

Yn yr UE, mae tystiolaeth o bryderon lles yn dyddio o'r cyfnod cyn mabwysiadu Rheoliad 1099/2009, fel mae cronicliad (6) o'r Rheoliad hwnnw yn ei gwneud yn glir. Mae cronicliad (6) yn cydnabod argymhellion blaenorol a wnaed gan EFSA yn eu hadroddiad yn 2004 ar agweddau lles prif systemau stynio a lladd y prif rywogaethau masnachol⁴, ond ni chynhwyswyd argymhellion i roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio carbon deuocsid ar gyfer

¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ssi/2012/321/contents>;
<https://www.legislation.gov.uk/cy/nisr/2014/107/contents>;
<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2014/951/contents>;
<https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1782/contents>

² <https://www.gov.uk/government/publications/fawc-report-on-the-welfare-of-farmed-animals-at-slaughter-or-killing>

³ <https://efsa.onlinelibrary.wiley.com/doi/10.2903/j.efsa.2004.45>

⁴ <https://efsa.onlinelibrary.wiley.com/doi/10.2903/j.efsa.2004.45>

moch yn y Rheoliad oherwydd y casgliad bryd hynny na fyddai'n economaidd hyfyw rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio'r dull hwn yn yr UE.

Dywedodd barn Wyddonol EFSA arall a gyhoeddwyd yn 2020⁵: 'Mae'r Panel yn ystyried bod dod i gysylltiad â CO2 crynodiadau uchel (a ddiffinnir yn y farn hon fel rhywbeth sy'n uwch na chyfaint o 80%) yn bryder lles difrifol, gan ei fod yn achosi poen, ofn a thrafferthion anadlu dwys. Mae dod i gysylltiad â nwyon anadweithiol a CO2 gyda nwyon anadweithiol yn achosi llai o boen, ofn a thrafferthion anadlu o'i gymharu â dod i gysylltiad â CO2 mewn crynodiadau uchel'; ac argymhellwyd 'y dylai cymysgeddau nwyon eraill sy'n achosi llai o boen a gofid gymryd lle dod i gysylltiad uniongyrchol â CO2 crynodiad uchel (a ddiffinnir yn y farn hon fel rhywbeth sy'n uwch na chyfaint o 80%). Mae angen mwy o ymchwil a datblygu ar gyfansoddiad cymysgeddau nwy nad ydynt yn achosi poen, gofid a thrafferthion anadlu yn ystod y cyfnod colli ymwybyddiaeth.'

Defnydd presennol

Dangosodd arolwg sector lladd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), a gyhoeddwyd yn 2024, fod 90% o foch wedi'u stynio drwy ddod i gysylltiad uniongyrchol â charbon deuocsid crynodiad uchel yng Nghymru a Lloegr (adroddwyd cyfran debyg gan swyddogion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol ers 2013 pan oedd ychydig dros 50%. Ar hyn o bryd mae 12 lladd-dy yn y DU yn stynio â charbon deuocsid crynodiad uchel, 8 yn Lloegr, 3 yng Ngogledd Iwerddon, 1 yn yr Alban a dim un yng Nghymru.

Yn 2024, cafodd y 10% yn weddill o gyfradd prosesu moch pwysau byw masnachol (110-120kg) eu lladd mewn 79 safle yng Nghymru a Lloegr, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio dull stynio trydanol â llaw i'r pen yn unig neu stynio trydanol â llaw o'r pen i'r corff, a chyfran fach yn defnyddio dyfais foltt-ddryll dreiddiol. Dyma'r prif ddulliau stynio amgen sy'n cael eu defnyddio ar raddfa fasnachol ar hyn o bryd yn lle defnyddio nwy carbon deuocsid. Ni ddeallir bod unrhyw ladd-dai moch yn y DU yn defnyddio nwyon anadweithiol neu stynio trydanol awtomataidd ar hyn o bryd. Nid yw'r diwydiant yn adrodd bod unrhyw iard gelanedd yn defnyddio nwy i ladd moch.

Mae stynio moch â charbon deuocsid crynodiad uchel yn parhau i gael ei ddefnyddio ac yn cynyddu. Dyma'r prif ddull stynio moch yn y DU, er gwaethaf yr heriau o ran lles anifeiliaid, a hynny oherwydd pryderon y diwydiant ynghylch argaeledd ac effeithiolrwydd dewisiadau amgen di-boen a dichonoldeb economaidd dewisiadau amgen ar raddfa fasnachol (er enghraifft effeithiolrwydd stynio, ansawdd cig, effeithlonrwydd, cyflymder y stynio, effeithiau amgylcheddol a chyflenwad nwy). Profodd y prosiect PigStun, a ddisgrifir isod, lawer o'r materion hyn. Byddai cadw'r dull stynio â charbon deuocsid yn opsiwn rhatach na throi at ddewisiadau amgen.

⁵ <https://efsa.onlinelibrary.wiley.com/doi/10.2903/j.efsa.2020.6148>

Mae ymchwil flaenorol wedi dangos nad yw moch yn osgoi amgylchedd sy'n cynnwys crynodiadau uchel o nwyon anadweithiol, fel argon, ac nid yw'r nwyon hyn yn achosi gofid ac ofn iddynt.^{6[OBJ]} Mae cyfyngiadau ymarferol ar ddefnyddio cymysgeddau nwy anadweithiol sy'n golygu nad yw'r dull wedi cael ei fabwysiadu'n eang yn fasnachol ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i'r moch ddod i gysylltiad â'r nwy anadweithiol am gyfnod hirach o amser er mwyn sicrhau bod colli ymwybyddiaeth yn para nes i'r anifail farw, a'r heriau technegol yn gysylltiedig â chynnal crynodiadau ocsigen gweddilliol isel.

Mae dadleuon hefyd o blaid cadw'r dull stynio moch â charbon deuocsid, a hynny drwy gymharu sut mae gwahanol systemau lladd yn effeithio ar les anifeiliaid, yn ystod y broses o'u trin ac yn ystod y broses stynio ei hun. Mae'r defnydd parhaus o stynio â charbon deuocsid crynodiad uchel wedi cael ei amddiffyn ar y sail bod moch yn cael eu symud a'u stynio mewn grwpiau, gan leihau'r angen am driniaeth ychwanegol sy'n achosi straen diangen i'r anifeiliaid o'i gymharu â'r straen a achosir wrth drin un rhes o anifeiliaid ar gyfer stynio trydanol awtomataidd. Dadleuir bod mantais lles trin grŵp yn gyfaddawd rhesymol yn erbyn y boen a'r ofn a achosir drwy ddod i gysylltiad â charbon deuocsid crynodiad uchel. Efallai na fydd y ddadl hon yn cael yr un effaith os gellir trosi systemau nwy presennol sydd â'r manteision trin hyn i ddefnyddio nwy anadweithiol.

Rydym yn bwriadu parhau i ganiatáu cymysgeddau nwy anadweithiol sy'n gysylltiedig â charbon deuocsid at ddibenion diboblogi yn unig, tra bo'r sylfaen dystiolaeth ar ddulliau amgen i'w defnyddio yn y maes yn datblygu ymhellach.

Tystiolaeth yn ymwneud â dulliau amgen

Ers adroddiad EFSA yn 2004 sy'n rhoi manylion am y boen a'r ofn a chosir gan garbon deuocsid crynodiad uchel, a manteision lles defnyddio argon, nitrogen neu gymysgeddau o'r nwyon hyn, mae maes ymchwil gweithredol wedi bod ynghylch dulliau lladd moch. Mae'r ymchwil wedi archwilio nifer o ddulliau amgen gan gynnwys gwahanol nwyon anadweithiol a chymysgeddau nwy anadweithiol, gan gynnwys prosiectau a ariennir gan Defra ⁷.

Fe wnaeth Defra hefyd ariannu ymchwil wyddonol, ochr yn ochr â'r Humane Slaughter Association, i effeithiau lles stynio moch yn defnyddio'r dull Gwasgedd Atmosfferig Isel (LAPS). Mae'r canlyniadau'n dangos nad yw LAPS yn cynnig dewis amgen di-boen yn lle stynio moch â charbon deuocsid crynodiad uchel, yn ogystal â dangos bod LAPS a stynio â charbon deuocsid ill dau'n gysylltiedig â lles gwael mewn moch. Mae hyn wedi cynyddu pryder ynghylch y defnydd presennol o garbon deuocsid crynodiad uchel i stynio moch.

⁶ Cyf: [MH0128: Novel and humane gaseous killing methods for pigs](#); [MH0135: Containability & aversiveness of different gas mixtures used for the stunning of slaughter weight pigs](#).

⁷ Cyf: [MH0128: Novel and humane gaseous killing methods for pigs](#); [MH0135: Containability & aversiveness of different gas mixtures used for the stunning of slaughter weight pigs](#).

Fel y noda'r adroddiad: 'Gyda'i gilydd, mae ein canlyniadau'n dangos bod LAPS a stynio â CO2 yn gysylltiedig â sawl dangosydd lles gwael a bod y ddau ddull yn achosi poen ac ofn i foch. [...]. Mae angen dulliau di-boen i stynio moch heblaw stynio â CO2 ar frys'. Nid yw LAPS yn ddull a ganiateir ar hyn o bryd ar gyfer stynio moch.

Yn fwy diweddar, bu Defra gomisiynu Coleg Gwledig yr Alban (SRUC) i gynnal astudiaeth ddesg o systemau trin cyn lladd ar gyfer stynio trydanol⁸. Nod y prosiect oedd asesu datblygiadau cyfredol a datblygiadau o'r radd flaenaf mewn systemau trin cyn lladd ar gyfer stynio moch yn drydanol, a sut maent yn diwallu/herio anghenion lles yr anifeiliaid. Nododd y prosiect y systemau trin sydd ar gael a'r rhai sy'n cael eu datblygu, gan gynnwys system stynio trydanol wedi'i haddasu a oedd yn dangos gwelliannau lles heb effeithio ar effeithlonrwydd. Nododd y gallai unrhyw ladd-dy wneud gwelliannau graddol i systemau presennol drwy weithredu technolegau awtomataidd a lled-awtomataidd sydd wedi'u dylunio'n dda, gan fuddsoddi mewn dyluniadau sy'n benodol i rywogaethau. Mae'r prosiect hefyd wedi llwyddo i ddatblygu asesiad lles anifeiliaid a fyddai'n galluogi cynnal gwerthusiad lles wrth ddesg o systemau posibl.

Canlyniadau Pigstun

Bu Comisiwn yr UE noddi PigStun, sef prosiect ymchwil mawr (gwerth 2 filiwn Ewro) i ddewisiadau amgen di-boen yn hytrach na stynio moch â charbon deuocsid crynodiad uchel ar raddfa fawr⁹. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymchwil ym mis Mehefin 2025. Amcan y prosiect PigStun oedd annog lladd-dai moch yr UE sy'n stynio moch â charbon deuocsid crynodiad uchel i newid i system sy'n achosi llai o boen ac ofn i'r anifeiliaid. Cafodd hyn ei gyflawni drwy brofi systemau amgen addawol a gwella strategaethau mewn perthynas â lles anifeiliaid. Canolbwyntiodd PigStun ar yr union faterion a ysgogodd y defnydd o stynio â charbon deuocsid yn y lle cyntaf : effeithiolrwydd y dull, ansawdd cig, effeithlonrwydd, cyflymder y stynio, effeithiau amgylcheddol a chyflenwad nwy. Profodd PigStun ddulliau a systemau stynio newydd ar draws dwy thema: edrychodd y cyntaf ar wahanol systemau Stynio mewn Awyrgylch wedi'i Reoli (CAS), gan ddefnyddio nwyon anadweithiol (argon, heliwm); a nod yr ail oedd lleihau straen wrth drin yr anifeiliaid cyn iddynt gael eu stynio, gan dawelu'r moch cyn mynd i mewn i'r peiriant. Mae'r ail thema hon yn berthnasol i systemau stynio trydanol a systemau nwy arloesol. Canfu'r prosiect fod gan y dewisiadau amgen a brofwyd y potensial i wella lles anifeiliaid.

Canfu PigStun fod straen cyn stynio yn cael ei leihau yn systemau ôl-osod Argon a Heliwm. Mae'n debyg iawn bod yr uwch broses Stynio mewn Awyrgylch wedi'i Reoli a gwella'r broses Stynio Trydanol ill dau wedi lleihau straen cyn stynio o'i gymharu â'r broses dod i gysylltiad â charbon deuocsid masnachol a stynio trydanol awtomataidd confensiynol, yn y drefn honno.

⁸ [MH014003: Alternative pre-slaughter handling systems for the electrical stunning of pigs - MH014003](#)

⁹ <https://eurcaw-pigs.eu/dossier/pigstun>

Ar ben hynny, canfu'r prosiect PigSun fod systemau stynio sy'n defnyddio argon a heliwm yn dangos potensial sylweddol ar gyfer lleihau straen a gwella lles anifeiliaid drwy leihau ofn, poen a thrafferthion anadlu o'i gymharu â charbon deuocsid crynodiad uchel yn ystod y cam cyntaf o golli ymwybyddiaeth (a fesurir nes mae'r anifail yn colli ystum y corff). Er bod y manylion yn amrywio rhwng systemau penodol, yn gyffredinol cymerodd y broses stynio fwy o amser wrth i'r moch ddod i gysylltiad ag argon neu heliwm na charbon deuocsid, ond gyda'r paramedrau stynio priodol, gellid cyflawni stynio effeithiol ar gyfer pob system.

Canfu'r prosiect PigStun fod ansawdd cig yn debyg mewn profion stynio ag argon a charbon deuocsid, ond roedd gan stynio trydanol awtomataidd fwy o broblemau o ran ansawdd cig. Nododd y prosiect bod systemau stynio trydanol awtomataidd ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd ac maent wedi'u dilysu mewn gweithrediadau masnachol. Yn y cyfamser, mae ôl-osod cyfleusterau carbon deuocsid presennol gydag argon yn cynrychioli'r dewis arall agosaf at ddefnydd masnachol llawn. Nodwyd bod nwyon anadweithiol yn llai gwenwynig na charbon deuocsid. Dangoswyd bod Argon ar gael yn rhwydd tra aseswyd bod stynio trydanol yn llai effeithiol yn amgylcheddol. Aseswyd bod yr effaith economaidd yn dibynnu ar y system stynio sydd eisoes ar waith, gydag addasu'r nwy mewn systemau nwy presennol yn cynrychioli'r gost fuddsoddi isaf. Byddai costau rhedeg yn dibynnu ar gost mewnbynau, nwy, trydan a dŵr, er enghraifft.

Cyngor y Pwyllgor Lles Anifeiliaid

Ym mis Tachwedd 2024, cafodd y Pwyllgor Lles Anifeiliaid (AWC), pwyllgor arbenigol annibynnol sy'n rhoi cyngor i Defra a'r Llywodraethau Datganoledig, ei gomisiynu i asesu'r dystiolaeth ynghylch effeithiau lles stynio carbon deuocsid crynodiad uchel ar foch, yn ogystal â thystiolaeth o effeithiau lles dulliau stynio amgen posibl ar foch, er enghraifft nwyon anadweithiol, trydanol â llaw, trydanol awtomataidd. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd asesu a chymharu'r materion lles sy'n codi ar wahanol adegau yn y lladd-dy sy'n benodol i wahanol ddulliau stynio, er enghraifft wrth drin yr anifeiliaid cyn eu lladd ac effeithiau'r dull stynio ei hun. Gellir gweld yr adroddiad yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/opinion-on-carbon-dioxide-gas-stunning-of-pigs-and-alternative-methods>.

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys canfyddiadau PigStun, daeth y Pwyllgor Lles Anifeiliaid i'r casgliad bod dod i gysylltiad â charbon deuocsid crynodiad uchel mewn systemau stynio masnachol yn achosi poen, ofn a thrafferthion anadlu i foch. Roedd hyn yn amlwg yn ymddygiad y moch a oedd yn ceisio dianc, yn dyhefod am wynt ac yn cadw sŵn. O ganlyniad, argymhellodd y Pwyllgor Lles Anifeiliaid y dylid tynnu'r dull stynio â charbon deuocsid crynodiad uchel oddi ar y rhestr o ddulliau cymeradwy i stynio moch. Ni welodd y Pwyllgor Lles Anifeiliaid unrhyw fantais lles na her lles bosibl o grynodiadau is o garbon deuocsid mewn cymysgeddau nwy anadweithiol ac argymhellodd eu tynnu oddi ar y rhestr hefyd.

Canfuwyd bod nwyon anadweithiol yn llawer llai tebygol o achosi ofn a phoen i foch na charbon deuocsid ac o'r rhain, argon yw'r dewis amgen mwyaf addas ar gyfer defnydd

masnachol. Canfuwyd hefyd bod stynio trydanol, fel sy'n cael ei ddefnyddio mewn systemau stynio trydanol awtomataidd, yn arwain at golli ymwybyddiaeth bron ar unwaith heb boen na dioddefaint pan fydd yr electrodau'n cael eu gosod yn gywir. Mae'r gwaith trin anifeiliaid cyn mynd i mewn i'r systemau trydanol wedi cael ei wella a gellid ei fireinio ymhellach i ddiogelu lles moch. Roedd ymchwil yng Ngholeg Gwledig yr Alban (SRUC) yn ceisio darparu rhai o'r gwelliannau hyn o ran trin y moch cyn iddynt gael eu stynio.

Mae'r gyfraith eisoes yn caniatáu defnyddio nwyon anadweithiol a stynio trydanol. Yn ei lythyr eglurhaol yn cyflwyno ei Farn i Uwch Swyddogion Cyfrifol, dywedodd y Pwyllgor Lles Anifeiliaid *'O safbwynt gwyddonol, nid oes amheuaeth bod y sylfaen dystiolaeth bellach wedi tyfu i'r graddau nad oes angen rhagor o ymchwil a bod angen gweithredu er mwyn newid.'*

Mae'r casgliad hwn o dystiolaeth yn atgyfnerthu'r heriau lles sy'n gysylltiedig â stynio moch â charbon deuocsid crynodiad uchel ac yn helpu i fynd i'r afael â phryderon y diwydiant am ddulliau amgen o stynio moch. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio pennu'r dulliau mwyaf ymarferol i'r sector moch gynnal cadwyn gyflenwi gynaliadwy wrth gael gwared yn raddol â stynio moch â charbon deuocsid o blaid dulliau mwy di-boen.

Cynnig

Mae'r dystiolaeth bod stynio moch â charbon deuocsid (boed hynny mewn crynodiad uchel neu ar y cyd â nwyon anadweithiol) yn cael effeithiau negyddol difrifol ar les anifeiliaid yn hysbys iawn. Byddai gwahardd stynio â nwy carbon deuocsid yn gwella lles adeg lladd tua 90% o'r moch sy'n cael eu lladd ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r dull hwn (9.7m bob blwyddyn). Mae dystiolaeth o ddichonoldeb dulliau stynio eraill a ganiateir yn parhau i ddatblygu (er enghraifft, y prosiect PigStun a nodwyd uchod), ac rydym yn gofyn am farn ychwanegol ar y dulliau amgen mwyaf ymarferol i ddiwydiant eu rhoi ar waith.

Rydym yn cynnig gwahardd stynio moch â charbon deuocsid yn y DU yn dilyn cyfnod pontio priodol er mwyn rhoi cyfle i ladd-dai sy'n defnyddio carbon deuocsid ar hyn o bryd i newid i systemau stynio amgen addas, fel nwy anadweithiol neu stynio trydanol. Mae'r hyn a allai fod yn gyfnod pontio priodol yn rhan allweddol o'r ymgynghoriad.

Os bwrir ymlaen â'r cynnig i wahardd stynio moch â charbon deuocsid, byddai deddfwriaeth ddomestig yn cael ei chyflwyno i wahardd unrhyw ddull sy'n defnyddio carbon deuocsid mewn lladd-dai ac ierdydd celanedd ar ddiwedd y cyfnod pontio a bennir yn y ddeddfwriaeth.

O dan Gytundeb SPS y DU a'r UE sydd ar y gweill, byddai Prydain Fawr yn cyd-fynd yn ddeinamig â rheolau lles anifeiliaid wrth gael eu lladd yr UE; mae Gogledd Iwerddon eisoes yn cyd-fynd o dan Fframwaith Windsor. Mae Rheoliad 1099/2009 yr UE yn galluogi Aelod-wladwriaethau i roi mesurau diogelu mwy helaeth ar waith ar gyfer anifeiliaid adeg eu lladd mewn perthynas â'r dulliau stynio yn eu tiriogaethau. Mae Defra a'r Llywodraethau Datganoledig yn disgwyl y byddai gwaharddiad ar stynio moch â charbon deuocsid yn cael ei roi ar waith o dan Reoliad 1099/2009 yr UE fel mesurau cenedlaethol llymach ym mhedair tiriogaeth y DU.

Opsiynau

Ar sail gwaith modelu Defra yn asesiad effaith yr ymgynghoriad, dyma'r opsiynau arfaethedig i ymgynghori arnynt:

- 0) Gwneud dim:
- 1) Gwahardd stynio moch â charbon deuocsid:

gyda chlyfnodau pontio'n cael eu hystyried:

- a) Cyfnod pontio o 2 flynedd:
- b) Cyfnod pontio o 3 blynedd:

Sylwch, am bob blwyddyn ychwanegol yn ystod y cyfnod pontio, y bydd tua 10 miliwn o foch ychwanegol yn dioddef canlyniadau lles negyddol stynio â charbon deuocsid.

Buom yn ystyried cyfryngau eraill ar gyfer hyrwyddo disodli stynio â charbon deuocsid gyda dewisiadau amgen mwy di-boen, fel dylanwadu ar ddiwydiant, trethu cynnyrch moch

sy'n deillio o foch wedi'u stynio â charbon deuocsid ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o gynlluniau gwarantu ac ar gyfer defnyddwyr a manwerthwyr. Aseswyd nad oedd gan yr opsiynau hyn y potensial i gyflawni'r amcan polisi o ddisodli stynio moch â charbon deuocsid â dewis arall mwy di-boen. Nid yw opsiynau gwirfoddol i gyflawni'r nod polisi wedi bod yn llwyddiannus dros yr 20 mlynedd diwethaf er bod yr heriau o ran lles anifeiliaid yn hysbys iawn.

Yr opsiwn polisi sy'n cael ei ffafrio gennym yw gwahardd stynio moch â nwy carbon deuocsid mewn lladd-dai ac ierdydd celanedd yn dilyn cyfnod pontio o dair blynedd. Mae Asesiad Effaith yr Ymgynghoriad yn nodi effeithiau posibl yr opsiwn polisi sy'n cael ei ffafrio ar gymdeithas, gan gynnwys busnesau, ochr yn ochr ag opsiynau i wneud dim neu wahardd stynio moch â charbon deuocsid yn dilyn cyfnod pontio o ddwy, pedair a phum mlynedd. Byddai gwahardd stynio â nwy carbon deuocsid yn gwella lles adeg lladd tua 90% o'r moch sy'n cael eu lladd ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r dull hwn (9.7m bob blwyddyn). Ar sail ein hasesiad, byddai darparu cyfnod pontio o dair blynedd yn taro cydbwysedd priodol rhwng y manteision lles anifeiliaid sy'n deillio o wahardd stynio â charbon deuocsid ac i ddiwydiant droi at ddefnyddio dulliau mwy di-boen. Yn benodol, credwn y byddai cyfnod pontio o dair blynedd yn rhoi digon o amser i broseswyr moch gael unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol a gwneud y gwaith sydd ei angen i osod offer stynio ychwanegol sy'n angenrheidiol i gynnal cyfraddau prosesu presennol. Bydd yr ymgynghoriad yn golygu bod modd casglu rhagor o safbwyntiau am y cyfnod pontio priodol. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn clywed barn ynghylch a fyddai cyfnodau pontio byrrach yn ymarferol.

Os hoffech gael gwybodaeth am y canlynol, ticiwch y blwch

- ☐ Asesiad effaith yr ymgynghoriad
- ☐ Dichonoldeb ac effeithiau economaidd dulliau amgen
- ☐ Adroddiad yr AHDB
- ☐ Amcangyfrif o'r effaith ar brisiau i ddefnyddwyr a mewnfôrion

Asesiad effaith yr ymgynghoriad

Cynhyrchwyd Asesiad Effaith yr Ymgynghoriad ac mae ar gael yma <https://consultations.defra.gov.uk/phasing-out-carbon-dioxide-stunning-of-pigs>.

Mae manylion yr opsiynau wedi'u nodi yn Asesiad Effaith yr Ymgynghoriad cysylltiedig sy'n mesur yr effeithiau posibl ar gymdeithas, gan gynnwys busnesau, o ganlyniad i'r cynnig i gyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth lles anifeiliaid adeg eu lladd a gwahardd stynio moch â nwy carbon deuocsid.

Mae ein modelu economaidd, sy'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y diwydiant a gweithgynhyrchwyr offer, yn amcangyfrif costau parhau â'r system stynio â charbon deuocsid a'r costau'n gysylltiedig â newid i'r systemau amgen lles uwch, a hynny ar gyfer 11 o ladd-dai moch cyfradd prosesu uchel y DU sy'n defnyddio carbon deuocsid (8 yn Lloegr, 1 yn yr Alban, 2 yng Ngogledd Iwerddon, 0 yng Nghymru). Mae 1 lladd-dy sy'n defnyddio carbon deuocsid yng Ngogledd Iwerddon yn sylweddol llai ac nid yw wedi'i

gynnwys yn y modelu. Ceisir data am y gost ynghlwm â newid hefyd o safleoedd cyfradd prosesu isel, nad oedd fel eithriadau yn rhan o'r dadansoddiad craidd. Gweler yr adran ar Ddichonoldeb ac effeithiau economaidd dewisiadau amgen.

Dichonoldeb ac effeithiau economaidd dulliau amgen

O ganlyniad i fodelu Defra a sgysiau â'r diwydiant, mae ein dadansoddiad yn tybio pe bai diwydiant yn newid i ddewis amgen, y byddai safleoedd yn y DU yn dewis stynio ag argon, yn hytrach na stynio trydanol awtomataidd neu â nwyon anadweithiol eraill. Y rhesymau am hynny yw cost is o'i gymharu â dewisiadau amgen eraill, llai o heriau o ran trin y moch a newid y system, ac mae mwy o waith ymchwil i argon na nwyon eraill. Fodd bynnag, mae costau untro a chostau parhaus yn gysylltiedig â gwneud hynny.

O ran y costau untro, byddai newid i argon yn galluogi lladd-dai i barhau i ddefnyddio eu pwll stynio â nwy presennol ar ôl disodli synwryddion nwy carbon deuocsid ar gyfer synwryddion ocsigen a gosod tanciau argon/addasu'r systemau chwistrellu nwy gyda'r costau cysylltiedig.

Yn ogystal, os ydynt yn newid i stynio ag argon, byddai angen i rai lladd-dai osod offer stynio â nwy ychwanegol er mwyn cynnal cyfanswm y gyfradd prosesu moch o ystyried yr amser hirach y mae'r argon yn ei gymryd i stynio. Byddai hyn yn cynnwys costau cloddio pwll stynio â nwy ychwanegol, yr offer stynio â nwy, unrhyw waith adeiladu neu dir sydd ei angen ac unrhyw gostau caniatâd cynllunio cysylltiedig. Byddai hefyd angen ystyried yr amser segur posibl wrth i'r gwaith gael ei gwblhau.

Byddai costau parhaus hefyd gan fod argon yn ddrutach na charbon deuocsid a byddai angen mwy o lafur i weithredu'r offer stynio ychwanegol.

Adroddiad yr AHDB

Rydym yn ddiolchgar i'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) am roi eu hadroddiad i ni: Dadansoddiad economaidd o'r broses o newid o system carbon deuocsid (CO₂) i system amgen fel prif ddull o ladd moch mewn cyfleuster prosesu moch masnachol yn y DU ym mis Mawrth 2026 ¹⁰, yn ogystal â chyfarfod â ni i drafod eu canfyddiadau

Mae costau llinell sylfaen ar gyfer stynio â CO₂ yn wahanol iawn yn nadansoddiad yr AHDB ac asesiad effaith yr ymgynghoriad gan Defra. Mae'r AHDB yn amcangyfrif costau CO₂ sylweddol is (£0.42 y mochyn) na'r rhai a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad Defra (£1.49 y mochyn), gan adlewyrchu tybiaethau gwahanol ynghylch prisio CO₂ a chyfraddau

¹⁰ <https://ahdb.org.uk/news/new-evidence-led-analysis-on-co2-stunning-in-the-uk-pig-processing-sector>

prosesu'r safle. Mae amcangyfrifon yr AHDB yn seiliedig ar ddata a ddarperir gan y diwydiant, gan gynnwys contractau cyflenwi nwy tymor hir a thybiaeth o ran safle cyfradd prosesu uchel (tua 450 o foch yr awr). I'r gwrthwyneb, mae amcangyfrifon Defra yn defnyddio ystadegau lladd cenedlaethol, canlyniadau wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws safleoedd gweithredu, a phrisiau CO₂ a ddarperir gan gyflenwyr diwydiant. Ar ben hynny, mae costau yr AHDB yn cael eu mynegi ym mhrisiau 2024, ond mae costau Defra wedi cael eu chwyddo hyd at 2026 yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF; mae'r gwahaniaeth hwn yn cyfrannu'n gymedrol at y gwahaniaeth, ond nid yw'n ei egluro'n llawn.

